

Dyddiad Cyfarfod		10 Gorffennaf, 2018	Gweithred
Lleoliad		Canolfan Merched y Wawr, Aberystwyth	
Mynychwyr		Owain Gruffydd, Iwan Hywel, Heledd ap Gwynfor, Rhidian Evans, Dean Baker, Lowri Jones, Catrin Devonlad, Nia Thomas, Mary Scourfield, Non Davies, Amanda Evans, Gill Stephen, Bethan Price, Einir Siôn	
Ymddiheuriadau		Nerys Burton, Owain Glenister, Ruth Williams, Meirion Davies, Manon Rees-O’ Briain, Dewi Snelson, Lis McLean, Elwyn Vaughan, Gwenllian Williams, Marged Rhys	
1.	Croeso	Croeso i Non Davies fel Prif Swyddog newydd Menter Iaith Cered.	
2.	Datgan Gwrthdaro Buddiannau	Hala’r ffurflen Gwrthdaro at bawb eto – mewn e bost wrth ei hunan Anfon Pecyn Croeso at Non, Cered – ei gwneud yn gyfarwyddwraig.	<b>Heledd Pwal</b>
3.	Cofnodion	<p>Cyfarfod Mai 16 - Catrin yn eu cynnig yn gywir, Lowri yn eilio. Anfon ffurflen dat budd eto. Proses dirprwyo – dilyn lan ar yr indemnity cyfarwyddwyr. Disgwyl am lythyr cadarnhad blwyddyn 2 prosiect Byd Busnes o hyd. De orllewin wedi cynnal diwrnod hyfforddiant PQASSO yn Llandeilo.</p> <p>Cyfarfod Ebrill 17 – Rhidian cynnig eu bod yn gywir, Bethan yn eilio. 14 Menter wedi ymateb i holiadur Amanda – am ddanfon y wybodaeth allan i bawb, a chyflwyno adroddiad ddiwedd Gorffennaf. Diolch am gynrychiolaeth Amanda.</p>	<p><b>Heledd MIC</b></p> <p><b>Amanda</b></p>

4.	<p>Busnes Cwmni MIC</p> <p><b>Cyfarfodydd mynychwyd gan PS / MIC:</b> Lowri Jones – Gofal Plant</p> <p>Owain Gruffydd - Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg</p>	<p>E bost at gadeiryddion y rhanbarthau i'w danfon at gadeiryddion y Mentrau yn yr hydref. Dangos gwariant ac incwm chwarter 1. Llyfrau at y cyfrifwyr erbyn diwedd yr wythnos hon. Copi electroneg o'r costau i fynd mas. Cyflwyno adroddiad chwarter 1 o'r Cynllun Gweithredol newydd. Dilyn y patrwm hyn yn rheolaidd o hyn ymlaen. Copi electroneg o'r cynnydd ar y Cynllun Gweithredol i'w ddanfon allan. Rhain i'w danfon cgâph er mwyn cyfle i ymateb cyn ei orffen.</p> <p>Caerffili - y gwasanaeth wedi tyfu yn gyflym, cynnig gofal plant wedi dod i ben – pwy mae trafod gyda ar wahân am yr uned Gymraeg i gael gwybodaeth? Cyswllt gydag Owain Lloyd – cyfarfod ag e i gyflwyno beth oedd y Mentrau yn eu gwneud / heriau – grŵp rhan ddeiliaid gofal plant yn bodoli, gwahoddiad i Lowri i fod ar y grŵp yma. Mynychu cyfarfod ohono yn cynnwys prif bartneriaid – defnyddiol i gael y wybodaeth ddiweddaraf. Os oes pwyntiau mae'r Mentrau eisiau eu codi o fewn y sector i rhoi gwybod i Lowri – Owain Lloyd yn fodlon ystyried achosion busnes byr dymor – cam ymlaen o ran trafod gydag adran wahanol yn y llywodraeth. Lowri yn cwrdd ag ef 11/7/18 am 3pm. Posibiliad o rhoi ceisiadau am gyllid i fewn... Angen ymwneud â'r adran hon – Lowri yn croesawi cwestiynau / cysylltu.</p> <p>BGTM – dymuniad am ymgynghorwr i ddod i fewn gydag arbenigedd berthnasol. Heriau i gadw'r safon o ran adnoddau. Môn – diffyg Twf a Cymraeg i Blant yn rhwystredig iawn, niferoedd cyfyngedig. Posib i Jeremy arwain ar hyn? Da i gael amserlen (30 awr). Staff Cymraeg eu hiaith gyda chymwysterau yn anodd ym mhob man.</p> <p>Yr adran yn y llywodraeth yn hapus dod mas. Arad wedi gweithio ar werthuso ar y peilot – amlwg bod angen mwy o ofal Cymraeg. Arolwg Cyngor Sir y Fflint wedi dangos bod na ddim yno. Diffyg yn y cyn geni. Rôl Mudiad Meithrin – angen y gweithlu lleol i fwydo'r cylchoedd – pryder hefyd fod nifer o'r cylchoedd yn gweithredu yn Saesneg yn bennaf. Dim effaith llawr gwlad.</p> <p><i>Cynnig Owain Lloyd i ddod i gyfarfod.</i></p> <p>Meirion Marchnad Lafur – datblygiad i rhannu arfer dda gyda sefydlu meithrinfeydd.</p> <p>Cyflwyniad gan Jeremy Evas. Prynawn yn trafod yr adroddiad, trosglwyddo iaith yn y cartref. 5 cyfnod – e.e 6ed dosbarth i fyny, cyfnod gallu dod yn rhieni, gweithgareddau cymdeithasol; rheini sydd yn cael plant; 0 – 3 oed – trosglwyddiad yn y cartref. Cafwyd cyflwyniad gan y Mudiad Meithrin yn y cyfarfod hefyd ar Clwb Cwtsh a diweddariad ar y bil gan y Llywodraeth (mwy am hyn yn sesiwn prynawn heddiw gyda chynrychiolwyr y Llywodraeth)</p>	<p><b>MIC</b></p> <p><b>MIC</b></p> <p><b>Lowri</b></p> <p><b>MIC</b></p>
----	---	--	---

		<p>Pwyllgor Gweithredol wedi cwrdd – edrych ar godi statws / proffil y Mentrau fel rhwydwaith cenedlaethol e.e cerddoriaeth Gymraeg . Ysgrifennu adroddiad ar y pwynt hwn – gwerthu ein hunain yn glyfrach.</p> <p><u>Cefnogaeth gweinyddol</u> – wedi lleoli yn Llanrwst – cytuno gan bawb. Bwrw ymlaen i’w hysbysebu, ei ddanfon at y PG.</p> <p><u>Cymraeg Byd Busnes</u> - Llythyr cynnig SLA blwyddyn 2 am gael ei ddanfon at y Mentrau priodol pan fydd llythyr cynnig y Llywodraeth drwyddo. Angen bod yn llawdrwm ar dderbyn costau teithio staff MIC o nawr ymlaen – rhoi dyddiad terfyn i’w derbyn.</p> <p>Adroddiad yn cael ei sgwennu gan Llew i’r Llywodraeth erbyn diwrnod olaf y mis hwn. Y swyddogion newydd dderbyn adroddiad ar y targedau iddynt fewnbynnu.</p> <p><u>Ymgyrch Gwirfoddoli</u> – trafodaeth pabell y cymdeithasau yn y stedd fod gen ar fore Llun. Elin Maher a Pwal wedi cyfarfod â Ruth Marks WCVA sydd yn awyddus i Gymreigio’r 3ydd sector. Alun Davies yn dod. Amanda BO / Ruth Dinbych yn enghraifft o siaradwyr posib parthed gwirfoddoli. 50 munud o drafodaeth, derbyniad mewn man arall gyda gwahodd e.e CCC (coleg). E bost am hyn i’w ddanfon at bawb. Gofyn i Heledd Cynwal gadeirio. Croeso i bawb gynnig rhywbeth i’w wneud ar stondin MIC.</p> <p>Ras yr Iaith – Gwerthusiad llawn i’w gyflwyno, gydag adroddiad sut i symud ymlaen. Mewnbwn gan bob un o’r Mentrau amdano.</p> <p>PQASSO – dashboard yn barod Awst 31; Hydref 5ed – asesu. Awst 14 – de ddwyrain yn cwrdd. Calendr dyddiadau’r flwyddyn wedi eu cadarnhau i’w danfon at bawb (rhan o’r pecyn aelodaeth – ond angen danfon hwn at bawb yn unig hefyd).</p>	<p><b>MIC</b></p> <p><b>MIC</b></p> <p><b>MIC</b></p> <p><b>MIC</b></p> <p><b>MIC</b></p> <p><b>Mentrau x22</b></p> <p><b>MIC &amp; Mentrau x16</b></p> <p><b>MIC</b></p>
--	--	--	---

4.	Cyflwyniad gan Hanna Huws, Menter Iaith Môn - Selog	<p>Rhannu potensial Selog. Magi Ann yn weledol; Selog yn sain / audio</p> <p>Cymaint o adnoddau ar gael gan bawb – Magi Ann yw’r mwyaf gyda’r Mentrau.</p> <p>Cais gan rhieni di Gymraeg Caergybi, caneuon ond yn cael eu canu mewn sesiynau, ymateb i alw y rhieni hyn. Y caneuon yma yn dda gyda’r henoed a’r ifanc.</p> <p>Mae yna gyfieithiad Saesneg ar gael i’r caneuon hefyd. Magi Ann cyn dechrau dysgu hyd at tua 6 oed. Llyfrau Selog yn llenwi bwlch. Tystiolaeth ganddynt drwy ddefnyddio apiau; ymweliadau cyfnod sylfaen ysgolion – angen yr hawl i gymryd lluniau; stondin; digwyddiadau cymunedol; gwefannau cymdeithasol.</p> <p>Props yn holl bwysig – cynrychioli cân ble does dim lleferydd (gan y bychain).</p> <p>Sut i brofi effaith? Apiau yn ffordd wych o brofi bod y Gymraeg yn y cartref; 11,000 o fewn y mis cyntaf wedi lawr lwytho. MIC gallu cyfrannu i dalu am daflenni.</p> <p>Cyflwyniad Dyfrig Elis arolygwr Estyn, wedi’i ddyfynnu yn dweud bod angen cyd weithio â’r Mentrau Iaith a’r Urdd etc.</p> <p>Matiau bwrdd ar y cyd rhwng Magi Ann a Selog i’w dosbarthu cyn hir.</p> <p>Siwt Selog ar gael am £100</p> <p>Sleidiau cyflwyniad Selog ar gael.</p>	<b>Derbyn gan Hanna</b>
5.	Marchnata gyda Wyn Aqua	<p>Awyddus deall strwythur y Mentrau / nifer staff / pa fath o wasanaethau – rhain ar sleidiau</p> <p>Am greu holiadur – needs analysis – o beth mae pob Menter eu hangen</p> <p>Capasiti yw’r broblem fwyaf – angen cwrdd â’r Mentrau fel clystyrau yn ddaearyddol / o ran eu hanghenion.</p>	
6.	Diweddariad Llywodraeth Cymru	<p>Grant yn dod i ben, un newydd mis Ebrill 2019, dal yn y broses gynllunio – aros am gadarnhad gweinidog cyn rhyddhau. Gobeithio Grant 3 mlynedd yn seiliedig ar y strategaeth newydd, ar thema 2 yn fwyaf penodol. Bwriadu cael cyfarfodydd syrjeri – cyfarfodydd un wrth un – beth yw disgwyliadau o ran y ceisiadau, gobeithio ei wneud fis Medi. Gobaith fel swyddogion bod y pwyslais ar thema 2, cymunedol – y pwyslais fwy ar y gymuned. Proses ymgeisio yn weddol rhydd a phen agored – angen casglu gwybodaeth / tystiolaeth / mapio nawr – bod y Mentrau yn ymateb i anghenion y gymuned – gwaith i’w wneud dros yr Haf.</p> <p>Ail thema - Defnydd – shwt mae cael y bobol i’w ddefnyddio.</p> <p>Tystiolaeth eu hangen (SWOT dros yr haf)</p>	<b>Mentrau</b>

Angen diweddarau tystiolaeth newydd – **disgwyl bod gan bawb gynllun corfforaethol ar gyfer ei mudiad.**

Cynllun gweithredu blynyddol mewn lle.

Os problemau / clashes gyda phartneriaid – angen mynd at y Llywodraeth medd Llyw. Nodwyd bod cydweithio ar lawr gwlad yn gallu bod yn anos. Diffinio ‘cymuned’ medru bod llawer anoddach na grwpio pobl fesul oedran neu gefndir.

Gobaith y Llyw yw bod sgysiau yn digwydd rhwng partneriaid ar fforymau sirol etc.

Siarad â phartneriaid eraill o fewn y sir - mapio sirol. Angen gweld tystiolaeth bod hyn yn / wedi digwydd. Llyw yn troi at y Mentrau i gydlynu â mudiadau eraill. Dangos sut mae ychwanegu gwerth – tystiolaeth yno, i egluro i’r Llyw beth sydd yn digwydd, yn enwedig gan nad yw pob ardal yn gyfarwydd i’r Llyw.

EinirS - Angen ychwanegu at gapasiti y Mentrau er mwyn ymateb i’r cynnydd.

Sicrhau bod pob partner yn prynu i fewn i’r syniad o gydweithio. Sut mae gwella ar hyn gofynna Sali Wyn. Neges glir i’r cynghorau sir o ran rôl y Mentrau yn lleol ateb ES – gofyn i’r partneriaid gysylltu â’r Mentrau yn gyson (diffyg gwybodaeth drwyddo ar ffurf gwaith).

Dim gwybodaeth berthnasol wrth y WESPS. Fforymau sirol wedi’u sefydlu i wneud hyn. Sialens yw derbyn gwybodaeth gan bartneriaid i geisiadau am wybodaeth.

Gofyn iddynt fel mudiadau i gysylltu yn amlach gyda’r Mentrau er mwyn rhannu gwybodaeth.

Syniad creu is grŵp o bartneriaid lleol sydd yn hyrwyddo’r iaith i’r fforwm sirol e.e yn Môn Dyddiad cau y cais – ddim i gael eto. Ddim chwaith yn siŵr o’r gyllideb eto, heb gael ei gytuno am y flwyddyn nesaf. Nes ymlaen yn yr haf daw mwy o wybodaeth.

Bil y Gymraeg – Mehefin 5ed Datganiad y Gweinidog. Ffocws ar ddatblygu’r Bil newydd.

Ymrwymiad i symud ymlaen at nifer siaradwyr a defnyddwyr y Gymraeg.

Comisiynydd presennol dod i ben ddiwedd mis Mawrth.

Dim penderfyniad ynglŷn â’r comisiwn eto. Angen i’r Bil cael ei basio yn gyntaf cyn sefydlu’r Comisiwn – dim amserlen ar gyfer hwn eto.

WESPS / CSYGA – rhan fwyaf o’r siroedd wedi eu cymeradwyo, 6 yn aros – Penybont, CNPT, Casnewydd, Torfaen, Merthyr.

ES – oes yna brotocol o ran rhannu gwybodaeth cyn i gabinet basio? Fel bod modd mewnbynnu yn strategol, a dim dibynnu ar unigolion.

Bwrdd cynghori cynllunio strategol wedi’i sefydlu – edrych ar yr argymhellion a dod lan â chynllun i weithredu – Aled Roberts yw’r cadeirydd.

		Llinell gyswilt yn weithredol cyn bo' hir.	
7.	Arfarniad o'r Cyfarfod	Llawer wedi ei drafod a dod i benderfyniadau drwy ddulliau cynhwysol.	
8.	Dyddiad Cyfarfod Nesaf	Hydref 18fed – Cyfarfod Blynyddol a Bwrdd Rheoli	